**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Ein cyf/Our ref: RE/504/21

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

9 Mawrth 2021

Annwyl Llyr,

Yn unol â'n harfer, a chyn y ddadl heddiw am Gyllideb Derfynol 2021-22, rwyf yn ysgrifennu i roi manylion y symiau canlyniadol y bydd Cymru'n eu cael o ganlyniad i Gyllideb Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth, a mesurau gwario COVID-19 i'w rhoi ar waith yn Lloegr.

Amgaeaf, yn atodiad A, restr o holl symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o gyllideb y DU am y flwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r symiau canlyniadol hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol i Gymru o £735.3m o refeniw, bron yn llwyr o ganlyniad i fesurau COVID-19 yn Lloegr.

Mae'n werth nodi nad oes unrhyw gyfalaf ychwanegol i Gymru yn 2021-22 er gwaethaf bwriadau datganedig y canghellor ar gyfer adferiad a arweinir gan fuddsoddi. Ar ben hynny, wrth ystyried cyfanswm lefel y cyllid sydd ar gael i Gymru yn 2021-22, mae cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario o ddydd i ddydd yn 2021-22 yn dal yn 4% yn is mewn termau real nag oedd yn 2010-11, ar sail tebyg at ei debyg.

Hoffwn gadarnhau fy mwriad i wneud nifer o ddyraniadau cynnar yn seiliedig ar y ffigurau yr ydym wedi'u gweld. Byddaf yn nodi cyfanswm pecyn yr addasiadau yn y Gyllideb Atodol Gyntaf 2021-22.

Rwyf yn aros am fanylion terfynol yr holl symiau canlyniadol yn y flwyddyn gyfredol, a byddaf yn darparu hynny i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad A - symiau canlyniadol fformiwla Barnett 2021-22**

| | £m Adnoddau |
|---|---|
| ***COVID-19*** | |
| Ardrethi Busnes | 358.9 |
| Grantiau busnes | 247.6 |
| Gweinyddu'r brechlyn | 97.0 |
| Cyllid dal i fyny ar gyfer dysgu ychwanegol | 22.1 |
| Amgueddfeydd a chyrff diwylliannol | 5.3 |
| **Cyfanswm** | **730.9** |
| | |
| ***Heb fod yn COVID-19*** | |
| Estyn hyfforddeiaethau | 4.2 |
| Arall | 0.2 |
| **Cyfanswm** | **4.4** |
| **Cyfanswm** | **735.3** |